Tîm Datblyg
Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar

Newyddlen Sir y Fflint

Hydref 2026

Yn y rhifyn hwn, rydym yn canolbwyntio ar recriwtio a chadw staff.

Byddwn yn rhannu adnoddau defnyddiol ac yn archwilio ffyrd y gall darparwyr gofal plant ddenu, datblygu, a chadw staff talentog er mwyn sicrhau hyfywedd hirdymor gwasanaethau gofal plant o ansawdd uchel.

Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar a'r Teulu
Early Years and Family Service
I HOLL blant gael y dechrau gorau mewn bywyd
For ALL children to have the best start in life

DATBLYGIAD GOFAL PLANT
CHILDCARE DEVELOPMENT
SIR Y FFLINT • FLINTSHIRE

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

Buddsoddi yng Ngweithlu'r Dyfodol

Mae gweithlu cryf, medrus ac angerddol wrth wraidd darpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn Sir y Fflint. Wrth i'r galw am ofal plant barhau i gynyddu o ganlyniad i gynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal plant wedi'i ariannu i blant dwy oed, mae denu a chadw ymarferwyr ymroddedig yn un o'r prif flaenoriaethau.

Nod y cylchlythyr hwn yw rhoi diweddariadau, adnoddau a chyfleoedd i gefnogi rheolwyr ac arweinwyr gofal plant â recriwtio, datblygu'r gweithlu a chadw staff.

Taflu Goleuni ar Brentisiaethau

Mae prentisiaethau yn helpu i ddatblygu gweithlu'r dyfodol ym maes y blynyddoedd cynnar.
Mae Gofalwn Cymru yn parhau i hyrwyddo prentisiaethau fel llwybr rhagorol i'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Gofalwn.cymru | WeCare.wales

Mae manteision prentisiaethau'n cynnwys:

- Datblygu ymarferwyr medrus ar gyfer y dyfodol.
- Cefnogi cynllunio olyniaeth mewn lleoliadau.
- Rhoi llwybrau mynediad hygyrch i'r sector.
- Galluogi staff i ennill cymwysterau ynghyd â chael eu cyflogi.
- Cefnogi datblygiad gyrfa i swyddi uwch a swyddi arwain.

Gall cyflogwyr elwa ar feithrin talent o'r cychwyn cyntaf, gan helpu i greu gweithlu ymroddedig a hyderus ar gyfer y dyfodol.

Gallwch wylio fideo esboniadol Gofalwn Cymru sy'n nodi manteision prentisiaethau, neu gallwch ddysgu o fideo sy'n edrych ar astudiaeth achos go iawn gyda Chuckles Nursery.

Cymorth Recriwtio ar Gael

Oeddech chi'n gwybod y gall yr Awdurdod Lleol helpu i hyrwyddo swyddi gwag ym maes gofal plant?

Gall darparwyr gyflwyno eu swyddi gwag gan ddefnyddio ein templed recriwtio, a gellir rhannu cyfleoedd trwy rwydweithiau lleol a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i helpu i gyrraedd ymgeiswyr posibl.

Gall hysbysebu trwy nifer o wahanol sianeli gynyddu amlygrwydd a denu amrywiaeth ehangach o ymgeiswyr.

Mae'n bwysig darparu cymaint o wybodaeth â phosibl yn eich hysbyseb swydd. Mae hysbysebion manwl yn fwy deniadol ac yn apelio mwy at ymgeiswyr posibl, gan eu helpu nhw i gael dealltwriaeth glir o'r rôl, y cyfrifoldebau, y buddion a'r cyfleoedd sydd ar gael. Gall hyn annog mwy o ymgeiswyr addas i wneud cais a gwella ansawdd y ceisiadau a dderbynnir.

Os oes gennych chi swydd wag ar gael ar hyn o bryd, cysylltwch â ni i drafod sut y gallwn ni eich cefnogi chi.

Childcare.development@flintshire.gov.uk

cwlwm
hildcar e Wales Learning & Working Mutually

Wyddoch chi y gall partneriaid CWLWM hefyd helpu i hyrwyddo eich swyddi gwag ym maes gofal plant?

Yn rhan o'u hymrwymiad i gefnogi recriwtio ar draws y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yn Sir y Fflint, gall partneriaid CWLWM rannu cyfleoedd gwaith drwy eu rhwydweithiau, gan helpu lleoliadau i gyrraedd cynulleidfa ehangach o ymgeiswyr posibl.

Mae Siop Swyddi Coleg Cambria yn rhoi llwyfan am ddim i gyflogwyr hysbysebu swyddi gwag

Mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi cyfle gwych i hyrwyddo swyddi i fyfyrwyr, graddedigion ac unigolion sy'n chwilio am waith, ac yn eich helpu chi i gyrraedd grŵp ehangach o ymgeiswyr posibl heb gost ychwanegol.

Drwy ddefnyddio amrywiaeth o sianeli recriwtio, yn cynnwys yr Awdurdod Lleol, partneriaid CWLWM a Siop Swyddi Coleg Cambria, gall lleoliadau gynyddu eu cyrhaeddiad a gwella eu siawns o ddenu ymgeiswyr addas i ymuno â'u gweithlu.

Cadw Staff Gwych

Rhan o'r ateb yn unig yw recriwtio. Mae cadw ymarferwyr medrus, profiadol ac angerddol yr un mor bwysig o ran sicrhau parhad i blant, teuluoedd a lleoliadau.

Gall cyfradd uchel o newid ymhlith ymarferwyr roi pwysau ychwanegol ar dimau, effeithio ar berthnasoedd â phlant a theuluoedd, ac achosi heriau recriwtio parhaus.

Mae rhai ffactorau a all ddylanwadu'n gadarnhaol ar gadw staff yn cynnwys:

- Mynediad at hyfforddiant o ansawdd uchel a chyfleoedd datblygu proffesiynol, gan alluogi staff i ddatblygu eu sgiliau.
- Llwybrau gyrfa a llwybrau dilyniant clir, sy'n helpu staff i weld dyfodol yn y sector.
- Arweinyddiaeth a rheolaeth gefnogol, lle mae staff yn teimlo bod unigolion yn gwrando arnynt, yn eu parchu ac yn eu gwerthfawrogi.
- Cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu rheolaidd sy'n rhoi cyfleoedd ar gyfer myfyrio, adborth a datblygiad personol.
- Cydnabod a gwerthfawrogi cyfraniadau staff, dathlu cyflawniadau a chydnabod y swyddogaeth bwysig sydd gan ymarferwyr.
- Diwylliant gweithle cadarnhaol a gwaith tîm, gan feithrin ymdeimlad o berthyn a chydgefnogaeth.
- Trefniadau gweithio'n hyblyg pan fo modd, gan helpu staff i gydbwyso gwaith a chyfrifoldebau personol.
- Pwyslais cryf ar iechyd a lles, yn cynnwys cael gafael ar adnoddau lles a chefnogaeth pan fo angen.
- Cyfleoedd i gyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau a gwella ansawdd, gan rymuso staff a'u hannog i gymryd perchnogaeth o'u swydd.
- Cyflog a buddion cystadleuol, pan fo modd, i gydnabod sgiliau, cymwysterau a phrofiad.

Gall creu amgylchedd lle mae staff yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi, eu parchu a'u grymuso gael effaith sylweddol ar foddhad unigolion yn eu swyddi a chymhelliant. Pan fydd staff yn teimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi ac yn cael cyfleodd i ddatblygu'n bersonol ac yn broffesiynol, mae'n fwy tebygol y byddan nhw'n aros yn eu lleoliad ac yn parhau i gyfrannu at ganlyniadau o ansawdd uchel i blant a theuluoedd.

Drwy roi blaenoriaeth i les staff, datblygiad proffesiynol a diwylliant gwaith cadarnhaol, gall lleoliadau feithrin gweithlu sefydlog, medrus a gwydn sy'n cefnogi cynaliadwyedd hirdymor y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Manteisio ar Ddatblygiad Proffesiynol

Mae gan ddatblygiad proffesiynol parhaus ran hanfodol yn y gwaith o gadw staff yn y gweithlu, ac mae'n helpu staff i deimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi, eu cymell a'u cefnogi yn eu swyddi.

Mae cynnig hyfforddiant, cyfleoedd rhwydweithio a llwybrau datblygu gyrfa yn galluogi staff i feithrin hyder, datblygu sgiliau newydd a pharhau i ymgysylltu â'r sector.

Mae gan reolwyr ran hanfodol yn y gwaith o greu diwylliant dysgu cadarnhaol yn eu lleoliadau. Mae cyfarfodydd goruchwylio a gwerthuso rheolaidd yn rhoi cyfleoedd i drafod nodau o ran eich gyrfa, cydnabod cryfderau a nodi unrhyw anghenion o ran hyfforddiant neu gymorth.

Drwy fuddsoddi yn natblygiad y staff, gall lleoliadau feithrin gweithlu medrus a hyderus sy'n bodloni anghenion plant a theuluoedd. Mae datblygiad proffesiynol parhaus yn gwella lefelau boddhad a chadw staff yn ogystal â gwella ansawdd y ddarpariaeth a chefnogi sector blynyddoedd cynnar ffyniannus.

DATBLYGIAD **GOFAL PLANT**
CHILDCARE DEVELOPMENT
SIR Y FFLINT • FLINTSHIRE

Rydym yn annog rheolwyr i drafod cyfleoedd datblygu yn ystod cyfarfodydd goruchwylio ac i nodi meysydd lle byddai staff yn elwa ar gymorth pellach.

Dysgu sut i ddarparu goruchwyliaeth a gwerthusiadau effeithiol yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Gellir mynd at lwyfan hyfforddi Datblygu Gofal Plant drwy ddefnyddio'r ddolen isod - buytickets.at/childcaredevelopmentflintshire

Pam mae data'r gweithlu yn bwysig

Mae deall tueddiadau'r gweithlu yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yn parhau i fod yn gynaliadwy ac yn wydn, ac yn gallu bodloni anghenion plant a theuluoedd ledled y sir.

Mae casglu data am y gweithlu yn ein helpu ni i:

- Ddeall yr heriau a'r pwysau sydd ar y sector ar hyn o bryd.
- Nodi bylchau o ran sgiliau ac anghenion hyfforddiant a datblygu yn y dyfodol.
- Llywio cynllunio'r gweithlu a llunio mentrau cymorth ar gyfer y dyfodol.
- Monitro anawsterau recriwtio, trosiant staff a thueddiadau cadw staff.
- Cefnogi sector gofal plant cynaliadwy sy'n gallu ymateb i anghenion teuluoedd sy'n gweithio a gofalwyr.
- Llywio penderfyniadau polisi lleol a chenedlaethol i sicrhau bod adnoddau a chymorth yn cael eu targedu'n effeithiol.

Oeddech chi'n gwybod y gall partneriaid CWLWM hefyd ddarparu cefnogaeth werthfawr gyda recriwtio a chadw staff?

P'un a ydych chi'n bwriadu denu staff newydd, cadw ymarferwyr profiadol, neu ddatblygu eich gweithlu, mae partneriaid CWLWM yn cynnig ystod o gyngor, adnoddau ac arweiniad wedi'u teilwra i'r sector gofal plant a blynyddoedd cynnar. Os oes angen cefnogaeth arnoch, cysylltwch â'ch sefydliad ymbarél, a fydd yn hapus i drafod y cymorth sydd ar gael a'ch cyfeirio at y gwasanaethau mwyaf priodol. Gall manteisio ar y gefnogaeth hon helpu i gryfhau eich tîm a sicrhau bod eich lleoliad yn parhau i ddarparu gofal plant o ansawdd uchel i blant a theuluoedd.

cwlwm.org.uk/cy

cwlwm
Childcare Wales Learning & Working Mutually

Rydym ni Eisiau Clywed Gennych Chi

Mae'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu yn helpu i lunio darlun cliriach o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r sector, gan sicrhau bod hyfforddiant, cymorth a mentrau'n ymwneud â'r gweithlu yn cael eu datblygu i ymateb i anghenion darparwyr, ymarferwyr a theuluoedd.

Gyda'n gilydd, gallwn gryfhau'r gweithlu blynyddoedd cynnar a chefnogi darpariaeth gofal plant o ansawdd uchel ledled y sir.

Beth yw eich heriau mwyaf o ran recriwtio a chadw staff?

- **Dod o hyd i ymgeiswyr cymwys?**
- **Cadw staff profiadol?**
- **Recriwtio ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg?**
- **Llenwi swyddi arweinyddiaeth?**
- **Cefnogi lles staff?**

Mae rhannu eich profiadau yn helpu â chymorth a chynllunio ar gyfer y gweithlu yn y dyfodol ledled Sir y Fflint.

Gyda'n gilydd, gallwn ni ddatblygu gweithlu blynyddoedd cynnar medrus, gwydn a chynaliadwy sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a theuluoedd yn Sir y Fflint.

I gael rhagor o wybodaeth neu gymorth, cysylltwch â'r Tîm Gofal Plant.
childcare.development@flintshire.gov.uk

Wrth i'r Hydref gyrraedd, mae'n hyfryd gweld y byd yn llawn lliwiau bywiog - dail crimp, concers i'w casglu a phwmpenni ym mhobman - y tymor perffaith ar gyfer chwarae, chwilfrydedd a darganfod.

Diolch am bopeth rydych chi'n ei wneud i gefnogi ac ysbrydoli'r plant sydd yn eich gofal. Dymunwn Hydref hapus, disglair ac llawn hwyl ac anturiaethau newydd i chi!

Cymraeg

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg. Gweler y dudalen Gymraeg ar ein gwefan.

This document is also available in English. See English page on our website.